

Amodau a Thelerau

1. Mae cyfyngiadau wedi'u gosod ar nifer y pasys a gaiff eu dosbarthu i sefydliadau a/neu gyhoeddiadau unigol. Mae'n bosibl na chaiff ceisiadau eu cwrdd yn llawn. Oni bai y cytunir fel arall, dim ond un newyddiadurwr a ffotograffydd fydd yn derbyn pàs a hynny fesul cyhoeddiad fesul diwrnod ac ni chaniateir cynorthwywyr heb ganiatâd.
2. Dim ond ffotograffwyr a newyddiadurwyr sydd â chomisiwn gan gyhoeddiad bona fide (print a/neu ddigidol) fydd yn cael eu hystyried ar gyfer pàs. Rhaid cynnwys y cyhoeddiad, y golygydd comisiynu, y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn ar y ffurflen gais ac mae'n bosibl y bydd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn cysylltu â nhw. Mae'n bosibl y gofynnir am enghreifftiau o waith cyhoeddedig.
3. Mae nifer y pasys sy'n cael eu dosbarthu wedi'i gyfyngu a bydd pob cais yn cael ei benderfynu gan aelodau Pwyllgor Golygyddol a Chyhoeddusrwydd y gymdeithas. Nid yw'r ffaith fod pàs wedi'i roi o'r blaen yn sicrwydd y bydd un yn cael ei roi eto yn y dyfodol.
4. Yn gyfnewid am y pasys sy'n cael eu dosbarthu am ddim i'r wasg a ffotograffwyr ac am y defnydd llawn o'r cyfleusterau yng nghanolfan y wasg, byddai'r gymdeithas yn hoffi caniatâd i ddefnyddio hyd at fwyafswm o chwech o'ch ffotograffau sydd wedi'u tynnu yn y sioe yn ei chylchgrawn blyneddol a chyhoeddiadau eraill, os bydd angen. Byddir yn rhoi cydnabyddiaeth a chlod llawn i'r ffotograffydd yn yr achosion hyn.
5. **Rhaid i bob ffotograffydd fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd trydydd person llawn a thrwy dderbyn yr amodau hyn indemnio Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru rhag pob cost, hawliad a thraul arall y gallant ei gael gan unrhyw drydydd person. Atgoffir pob ffotograffydd eu bod yn mynd i'r mewn i'r cylchoedd yn gyfan gwbl ar eu menter eu hunain.**
6. Rhaid i bob ffotograffydd a daliwr bathodyn y wasg gydymffurfio â cheisiadau a chyfarwyddiadau'r gymdeithas a stiwardiaid.
7. Bydd ffotograffwyr sy'n dymuno mynd i mewn i'r cylchoedd beirniadu yn derbyn rhwymyn braich pan fyddant yn cofrestru gyda chanolfan y wasg. Mae angen gwisgo hwn i gael mynediad i'r cylchoedd a phob amser i ddangos pw ydych pan fyddwch yn y cylchoedd. Rhaid dychwelyd y rhwymyn braich ar ddiwedd yr achlysur. **Nodwch ar eich ffurflen gais a ydych yn bwriadu mynd i mewn i'r cylchoedd beirniadu i dynnu lluniau yn ystod yr achlysur.**
8. Disgwylir i ffotograffwyr wisgo'n drwsiadus os ydynt yn dymuno mynd i mewn i'r cylchoedd beirniadu.
9. Gofynnir i ffotograffwyr a dalwyr bathodynau'r wasg wneud bob ymdrech bob amser i osgoi rhwystro'r cyhoedd rhag gweld ac i weithredu gyda pharch at ei gilydd, at y stiwardiaid ac at y gwylwyr. I osgoi dal pethau'n ôl ac mewn ymdrech i leihau ymyrraeth, rhaid i ffotograffwyr gydymffurfio â cheisiadau a chyfarwyddiadau'r stiwardiaid bob amser.
10. Ni fydd pasys i'r wasg neu ffotograffwyr yn cael eu dosbarthu i gynrychiolwyr hysbysebu.
11. Byddir yn cymryd pàs unrhyw ffotograffydd neu ddaliwr bathodyn y wasg sy'n torri'r amodau hyn oddi arnynt, byddir yn gofyn iddynt adael y maes ac ni fyddant yn cael pàs i ddigwyddiadau yn y dyfodol.
12. **Mae cyflwyno'r ffurflen gais yn cadarnhau eich bod yn derbyn yr Amodau a'r Telerau hyn.**

